OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 13

## Amrywiol

**Ymestyn y cyfnod ar gyfer penderfyniad awdurdod ar gais cynllunio**

**57.**—(1) At ddibenion adran 78 o Ddeddf 1990 (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath), o ran penderfynu ar yr amser sydd wedi mynd heibio heb i'r awdurdod cynllunio perthnasol roi hysbysiad i'r ceisydd o'i benderfyniad—

(a) pan fo'r awdurdod wedi hysbysu ceisydd yn unol â rheoliad 10(1) bod cyflwyno datganiad amgylcheddol yn ofynnol; a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad dan sylw,

nid oes unrhyw ystyriaeth i'w roi i unrhyw gyfnod cyn dyroddi'r cyfarwyddyd.

(2) Pan fo awdurdod yn gyfrifol am benderfynu ar gais AEA, mae erthyglau 22 (cyfnodau amser ar gyfer penderfyniadau) a 23 (ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio) o Orchymyn 2012 yn cael effaith fel pe bai bob un o'r cyfeiriadau yn erthygl 22(2)(a) a 23 at gyfnod o 8 wythnos yn gyfeiriad at gyfnod o 16 wythnos.